# NEWYDDLEN ADY

Newyddlen Misol gan Adran ADY Ysgol Gyfun Aberaeron...




Adran ADY yn rhoi ffocws I Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol disgyblion...




Mae'r staff dysgu ADY a'r CALU's wedi cynhrychu posteri Cymorth I athrawon dosbarth, er mwyn hybu cynhwysiant disgyblion ADY yn y dosbarthiadau prif-ffrwd….



Disgyblion Canolfan Y Mor yn datblgyu sgiliau creadigol trwy gynhyrchu ffilm mewn partneriaeth a Theatr Felinfach…..




Trip ir Llyfrgell Genedlaethol yn ysbrydoli cariad at Ddarllen….

## Yr Adran ADY yn rhoi ffocws ar hybu Iechyd Meddwl da…...

CAMHS
Child and Adolescent Mental Health Service

**Yn ystod y mis hwn, mae'r Adran ADY wedi bod yn rhoi ffocws arbennig i hybu Iechyd Meddwl y disgyblion yn ein gofal. Cafwyd hyfforddiant diddorol gan aelodau staff CAMHS a buodd yn ein helpu i ddatblygu sgriptiau a deialogau penodol, sensitif a gofalgar,er mwyn gallu cefnogi disgyblion sy'n dioddef o gorbryder ac iselder. Roedd y gweithdai yn rhai gwerthfawr i ni fel tim ac yn sicr, rydym wedi elwa'n fawr o wybodaeth a phrofiad yr hyfforddwyr. Ein gobaith yw, gallu cynnig cymorth fwy effeithiol I ddisgyblion sy'n dioddef o broblemau emosiynol a chymdeithasol.**




**Mae'r Adran ADY wedi cymryd rhan yn Wythnos Cenedlaethol Iechyd Meddwl Plant:** Bu nifer o weithgareddau diddorol ac hwylus ar draws yr Adran a'r Canolfannau Arbenigol yn ystod yr wythnos arbennig hwn,gan gynnwys, Celf, Ioga, gweithgareddau meddwlgarwch ac ymlacio, i enwi ond rhai!









CA 5: Grwp Celf & Enaid yn ymchwilio "Tirluniau" ac yn trafod teimladau wrth ymweld a lleodd sy'n arbennig iddyn nhw...




CA 3: Gwers hybu Iechyd Meddwl Da...

Disgyblion yn creu cadwynau cyfeillgarwch….



Dyma Emma Enwright a Chloe Miles-ein cymorthyddion dawnus a gofalgar, sy'n arwain ymyrraethau Lles a Chymdeithaol. Gwelwch pigion o'u gwaith isod.









Emma yn cynnal sesiwn Meddwlgarwch Synhwyraidd gyda CA 3

Grwp Mynediad CC yn Creu arddangosfa "Sut allwn ni helpu ein hunain a Sut allwn ni helpu eraill"….




**Mae'r Athrawon yr Adran ADY a'r CALU's wedi creu Posteri Cymorth I athrawon gyda thipiau ymarferol I'w helpu I gefnogi disgyblion ADY ar lawr dosbarthiadau prif ffrwd.**

**Ar gael I Athrawon ar safle TEAMs ein hysgol o fewn y sianel ADY.**

# ALN NEWSLETTER

A monthly newsletter brought to you by the Aberaeon School ALN Department….

CHWEFROR 2023

## Top stories in this newsletter….




Adran ADY yn rhoi ffocws I Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol disgyblion...




Mae'r staff dysgu ADY a'r CALU's wedi cynhrychu posteri Cymorth I athrawon dosbarth, er mwyn hybu cynhwysiant disgyblion ADY yn y dosbarthiadau prif-ffrwd….



Disgyblion Canolfan Y Mor yn datblgyu sgili-au creadigol trwy gynhyrchu ffilm mewn partneriaeth a Theatr Felinfach…..




Trip ir Llyfrgell Genedlaethol yn ysbrydoli cariad at Ddarllen….






## Disgyblion Canolfan Y Mor yn defnyddio Sgiliau Creadigol i greu Ffilm am "Y Gofod"

Mae Disgyblion Canolfan Y Mor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth a Theatr Felinfach i greu ffilm am Y Gofod. Mae'r prosiect blaengar hwn yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau Cyfathrebu a Chymdeithasol, trwy weithgareddau chwarae rol, cerdd, symud a ffilmio. Mae'r prosiect cydweithredol hwn, yn rhan o gynllun creadigol sy'n cael eu ddarparu ar draws pob Canolfan Arbenigol yng Ngheredigion. Edrychwn ymlaen at y perfformiad gorffenedig yn fuan.









## Ymweliad a'r Llyfrgell Genedlaethol yn ysbrydoli cariad at Ddarllen….

**Bu ymweliad diddorol iawn ir Llyfrgell Genedlaethol gan ddisgyblion CA 4 a 5 Canolfan Croeso ar 14/2/23. Pwrpas yr ymweliad oedd I hybu agwedd cadarnhaol at ddarllen ynghyd a darparu'r cyfle i ddefnyddio sgiliau darllen mewn lleoliad gafaelgar ac arbennig. Lle gwell I wneud hyn na'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth! Rydym yn rhoi ffocws ar ddarllen ar y cyd ers tymor ac yn wir, mae'r strategaeth yn dechrau dwyn ffrwyth. Daliwch ati I ddarllen pawb!**








Hanner Tymor Hapus I bawb…..

**Oddi wrth yr Adran ADY!**